

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 98(3) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2019 Rhif (Cy.)

ADDYSG, CYMRU

**Rheoliadau Cydlynnydd Anghenion
Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2019**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu at adran 60 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (ac eithrio ysgolion arbennig) a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru ddynodi person (neu bersonau) yn gydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol ("cydlynnydd ADY") i fod yn gyfrifol am gydlynu darpariaeth ddysgu ychwanegol ("DDdY") ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY").

Mae'r Rheoliadau yn nodi'r cymwysterau a/neu'r profiad y mae rhaid i gydlynwyr ADY feddu arnynt/arno (rheoliadau 3 a 4) ac yn rhoi swyddogaethau i gydlynwyr ADY sy'n ymwneud â'r DDdY ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr ag ADY (rheoliadau 5 a 6).

Nid yw'r Rheoliadau hyn yn effeithio ar allu'r corff llywodraethu i roi cyfrifoldebau pellach i'r cydlynnydd ADY.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 98(3) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2019 Rhif (Cy.)

ADDYSG, CYMRU

**Rheoliadau Cydlynnydd Anghenion
Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2019**

Gwnaed ***

Yn dod i rym ***

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 60(4) a 98(2) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 98(3) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar **.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “ADY” (“ALN”) yw anghenion dysgu ychwanegol(2);

ystyr “athro neu athrawes addysg bellach” (“*further education teacher*”) yw person sydd wedi

(1) 2018 dccc 2; gweler y diffiniadau o “prescribed” a “regulations” yn adran 99(1).

(2) Gweler adran 579(1) o Ddeddf 1996. Mewn osodwyd gan baragraff 4(32) o Atodlen 1 i'r Ddeddf.

ei gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg yng nghategori athro neu athrawes addysg bellach fel y'i disgrifir o dan dabl 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014;

ystyr "athro neu athrawes ysgol" ("*school teacher*") yw person sydd wedi ei gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg yng nghategori athro neu athrawes ysgol fel y'i disgrifir o dan dabl 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014 ac nid yw'n cynnwys person o fewn ystyr adran 9(5)(1) o'r Ddeddf honno;

ystyr "CDU" ("*IDP*") yw cynllun datblygu unigol(2);

ystyr "cydlynnydd ADY" ("*ALNCo*") yw cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol(3);

ystyr "cydlynnydd anghenion addysgol arbennig" ("*special educational needs co-ordinator*") yw person sydd â chyfrifoldeb am gydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion y nodir bod ganddynt anghenion addysgol arbennig o dan Rhan 4 o Ddeddf 1996;

ystyr "DDdY" ("*ALP*") yw darpariaeth ddysgu ychwanegol(4);

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996(5);

ystyr "Deddf 2014" ("*the 2014 Act*") yw Deddf Addysg (Cymru) 2014(6);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018;

ystyr "gwasanaethau perthnasol" ("*relevant services*") yw—

- (a) cyngor neu gymorth mewn perthynas â DDdY;
- (b) rheoli DDdY;
- (c) asesu ADY;
- (d) cyngor neu gymorth mewn perthynas ag ADY; ac
- (e) rheoli disgyblion neu fyfyrwyr (yn ôl y digwydd) ag ADY;

ystyr "gweithiwr cymorth dysgu mewn addysg bellach" ("*further education learning support worker*") yw person sydd wedi ei gofrestru â

-
- (1) Mae'r adran hon yn darparu y caniateir i berson gael ei gofrestru ar sail dros dro.
 - (2) Gweler adran 579(1) o Ddeddf 1996. Mewnosodwyd gan baragraff 4(32) o Atodlen 1 i'r Ddeddf.
 - (3) Gweler adran 60 o'r Ddeddf am y diffiniad o "cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol".
 - (4) Gweler adran 579(1) o Ddeddf 1996. Mewnosodwyd gan baragraff 4(32) o Atodlen 1 i'r Ddeddf.
 - (5) 1996 p. 56.
 - (6) 2014 decc 5.

Chyngor y Gweithlu Addysg yng nghategori gweithiwr cymorth dysgu mewn addysg bellach fel y'i disgrifir o dan dabl 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014;

ystyr “gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol” (“*school learning support worker*”) yw person sydd wedi ei gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg yng nghategori gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol fel y'i disgrifir o dan dabl 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014;

ystyr “SAB” (“*FET*”) yw sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru fel y diffinnir “institutions within the further education sector” gan adran 91(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(1).

Cymhwyster neu brofiad rhagnodedig cydlynnydd ADY mewn ysgol

3. Rhaid i gorff llywodraethu ysgol(2) sicrhau bod y person sydd wedi ei ddynodi'n gydlynnydd ADY o dan adran 60(2) o'r Ddeddf—

- (a) yn athro neu athrawes ysgol; neu
- (b) yn gydlynnydd anghenion addysgol arbennig o fewn yr ysgol yn union cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

Cymhwyster rhagnodedig cydlynnydd ADY mewn SAB

4. Rhaid i gorff llywodraethu SAB(3) sicrhau bod y person sydd wedi ei ddynodi'n gydlynnydd ADY o dan adran 60(2) o'r Ddeddf yn athro neu athrawes addysg bellach.

Swyddogaethau cydlynnydd ADY mewn ysgol

5. Mae cydlynnydd ADY mewn ysgol yn gyfrifol am gyflawni'r tasgau a ganlyn neu am sicrhau bod y tasgau a ganlyn yn cael eu cyflawni—

- (a) nodi ADY disgybl a chydlynu'r gwaith o wneud DDdY sy'n diwallu ADY disgybl;
- (b) sicrhau gwasanaethau perthnasol a fydd yn cefnogi DDdY disgybl fel y bo'n ofynnol;
- (c) cadw cofnodion o benderfyniadau ynghylch ADY a CDUau, i gydymffurfio â'r gofynion a osodir ar gorff llywodraethu'r ysgol o dan y Ddeddf neu'r cod(4);

(1) 1992 p. 13.

(2) *Gweler* adran 60(1)(a) o'r Ddeddf.

(3) *Gweler* adran 60(1)(b) o'r Ddeddf.

(4) *Gweler* adran 4 o'r Ddeddf.

- (d) cysylltu â'r disgybl a rhiant y disgybl a darparu gwybodaeth iddynt am ADY a CDU disgybl a'r DDdY sy'n cael ei gwneud;
- (e) hybu cynhwysiant disgybl ag ADY yn yr ysgol a'i fynediad at gwricwlwm, cyfleusterau a gweithgareddau allgyrsiol yr ysgol;
- (f) llunio ac adolygu'r wybodaeth y mae'n ofynnol i gorff llywodraethu'r ysgol ei chyhoeddi yn unol â'r cod;
- (g) cynghori'r athrawon ysgol yn yr ysgol ynghylch y dulliau addysgu gwahaniaethol sy'n briodol ar gyfer disgyblion unigol ag ADY;
- (h) goruchwyllo a hyfforddi gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgol sy'n gweithio gyda disgyblion ag ADY;
- (i) cyfrannu at hyfforddiant mewn swydd ar gyfer athrawon ysgol yn yr ysgol er mwyn eu cynorthwyo i gyflawni tasgau; a
- (j) monitro effeithiolrwydd unrhyw DDdY a wneir.

Swyddogaethau cydlynedd ADY mewn SAB

6. Mae cydlynedd ADY mewn SAB yn gyfrifol am gyflawni'r tasgau a ganlyn neu am sicrhau bod y tasgau a ganlyn yn cael eu cyflawni—

- (a) nodi ADY myfyriwr a chydlynu'r gwaith o wneud DDdY sy'n diwallu ADY myfyriwr;
- (b) sicrhau gwasanaethau perthnasol a fydd yn cefnogi DDdY myfyriwr fel y bo'n ofynnol;
- (c) cadw cofnodion o benderfyniadau ynghylch ADY a CDUau, i gydymffurfio â'r gofynion a osodir ar gorff llywodraethu'r SAB o dan y Ddeddf neu'r cod;
- (d) cysylltu â'r myfyriwr a darparu gwybodaeth iddo am ADY a CDU y myfyriwr hwnnw a'r DDdY sy'n cael ei gwneud;
- (e) hybu cynhwysiant myfyriwr ag ADY yn y SAB a'i fynediad at gwricwlwm, cyfleusterau a gweithgareddau allgyrsiol y SAB;
- (f) llunio ac adolygu'r wybodaeth y mae'n ofynnol i gorff llywodraethu'r SAB ei chyhoeddi yn unol â'r cod;
- (g) cynghori'r athrawon yn y SAB ynghylch y dulliau addysgu gwahaniaethol sy'n briodol ar gyfer myfyrwyr unigol ag ADY;
- (h) goruchwyllo a hyfforddi gweithwyr cymorth dysgu mewn addysg bellach sy'n gweithio gyda myfyrwyr ag ADY;

- (i) cyfrannu at hyfforddiant ar gyfer athrawon addysg bellach yn y SAB er mwyn eu cynorthwyo i gyflawni tasgau; a
- (j) monitro effeithiolrwydd unrhyw DDdY a wneir.

Kirsty Williams

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o
Weinidogion Cymru
Dyddiad